

## ADRODDIAD I'R CABINET

19 Chwefror 2013

<b>Aelod Cabinet:</b>	Cynghorydd Gareth Roberts
<b>Pwnc:</b>	Cyfansoddiad TAITH
<b>Swyddog cyswllt:</b>	D P Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

**Pwrpas yr Adroddiad:** Ystyried diwygio cyfansoddiad TAITH i'w alluogi i weinyddu grantiau bws rhanbarthol

---

### **1.0 Cefndir**

- 1.1 Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymuned, Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o drefniadau ariannu gwasanaethu bysus yng Nghymru gan argymhell fod cyfundrefn newydd i'w chyflwyno o 1 Ebrill 2013 i'w weinyddu gan gonsortia trafnidiaeth ranbarthol, yn achos Gwynedd TAITH.
- 1.2 Nid yw cyfansoddiad TAITH yn caniatáu iddynt ymgymryd â'r cyfrifoldeb newydd ac felly mae angen diwygio'r cyfansoddiad i hyn ddigwydd. Gan fod TAITH wedi'i sefydlu fel Cydbwyllgor o'r chwe Chyngor Gogledd Cymru mae angen i hyn ddigwydd ymhob un o'i gynghorau.
- 1.3 Rhagwelir angen tebyg yn codi mewn perthynas â ThraCC (Trafnidiaeth Canolbarth Cymru) ond hyd yn hyn nid ydynt yn aeddfed ynglŷn â'r union newidiadau sydd angen.

### **2.0 Adolygiad Gwasanaethau Bysus**

- 2.1 Yn hanesyddol cefnogwyd gwasanaethau bysus drwy ddwy ffynhonnell grant - Grant Gwasanaethau Lleol Cludiant a delir gan awdurdodau i gefnogi teithiau bysus anfasnachol a Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bws a delir gan Lywodraeth Cymru i gwmnïau bysus i'w cynorthwyo gyda chostau tanwydd.

- 2.2 Mae'r adolygiad wedi ystyried y gyfundrefn ac mae'r Gweinidog wedi penderfynu:-
- a) diddymu Grant Gwasanaethau Cludiant Lleol a'r Grant Gwasanaethau Gweithredwyr Gwasanaethau Bws a sefydlu Grant Gwasanaethau Cludiant Rhanbarthol yn ei le.
  - b) O 1 Ebrill 2013 y Consortia Cludiant Rhanbarthol fydd yn gyfrifol am weinyddu'r gyfundrefn ariannu newydd.
  - c) disgwylir i'r consortia ddatblygu Strategaeth Rhwydwaith Bws Rhanbarthol i flaenoriaethu gwariant o'r grant yn unol ag amgylchiadau lleol.
  - ch) bydd 10% o'r grant newydd yn cael ei amgylchu i gludiant cymunedol. Bydd angen fodd bynnag i ddarparwyr drafod a gweithio gyda'r consortia i ddatblygu gwasanaethau sy'n gyson â'r Strategaeth Rhwydwaith Bws Rhanbarthol.
- 2.3 Dylid nodi fod y newidiadau yma yn digwydd gyda gostyngiad o tua 25% o gyllid fydd ar gael yn 2013-14 h.y. £25 miliwn Cymru gyfan i gymharu â £33m sydd wedi bod ar gael yn nhermau'r Grant Gwasanaethau Cludiant Lleol gynt.

### **3.0 Cyfansoddiad TAITH**

- 3.1 Ynghlwm mae copi o gyfansoddiad TAITH gafodd ei sefydlu yn 2004 pan sefydlwyd pedwar consortiwm cludiant rhanbarthol - De Orllewin, De Ddwyrain, TraCC (Trafnidiaeth Canolbarth Cymru) a TAITH (Gogledd Cymru).
- 3.1 Fe'i sefydlwyd ar sail cydbwyllgorau gyda hawliau dirprwyedig wedi'i roi gan y chwe Chyngor iddynt eu gweithredu ar ran y cynghorau. Roedd hyn yn bennaf ynglŷn â llunio a chyhoeddi Cynllun Cludiant Rhanbarthol a bellach gweithredu'r cynlluniau hynny. 2013-14 fydd y bedwaredd flwyddyn yng nghyfnod 5-mllynedd y cynllun presennol.
- 3.3 Nid yw'r cyfansoddiad yn cynnwys yr hawl i weinyddu grantiau ariannu bysus na chwaith i lunio'r Cynllun Strategol Rhwydwaith Bws ac felly mae angen diwygio cyfansoddiad TAITH i alluogi hyn digwydd yn unol â phenderfyniadau'r Gweinidog.

- 3.4 Yng nghyfarfod o Fwrdd TAITH ar 1 Chwefror ystyriwyd y newid arfaethedig i'w cyfansoddiad a chymeradwywyd cynnwys y cymal canlynol ym mharagraff 3.2:-

“I weinyddu, comisiynu a gweithredu grantiau ariannu bws a strategaethau rhwydwaith bws i'r rhanbarth”.

- 3.5 Ardal Weithredol TAITH - yn ychwanegol i'r newid uchod mae hefyd angen ymestyn ardal weithredol TAITH i gynnwys Meirionnydd. Pan sefydlwyd y consortia teimlwyd fod fwy o gyswllt gan ardal Meirionnydd gyda chanolbarth Cymru (Ceredigion a Phowys) ac felly gosodwyd Meirionnydd yn TraCC gyda gweddill Gwynedd (Arfon a Dwyfor) yn TAITH.

- 3.5.1 Yn hanesyddol fodd bynnag mae'r Grant Gwasanaethau Lleol Cludiant wedi'i dderbyn yn ei gyfanrwydd gan y Cyngor ac mi fyddai yn synhwyrol i'r trefniant hyn barhau mewn perthynas â'r grant newydd ac i hwnnw gael ei weinyddu drwy TAITH.

- 3.5.2 Gofynnir felly i ardal weithredol TAITH gael ei ymestyn mewn perthynas â gweithgareddau penodol i Wynedd gyfan.

#### **4.0 Ystyriaethau Perthnasol**

- 4.1 Mae penderfyniadau'r Gweinidog yn mynd a'r cyfrifoldeb am gomisiynu'r rhwydwaith strategol bws allan o'r Cynghorau unigol ac yn ei roi i'r consortiwm cludiant rhanbarthol TAITH. Mae'n dilyn o hyn bydd llai o ddylanwad gan y Cyngor ar y ddarpariaeth strategol.

- 4.2 O ddweud hyn mae'r Cyngor yn gwario tua £1 miliwn o'i gyllideb graidd ar wasanaethau bws ac mi fydd angen sicrhau plethiad o'r gwariant yma i'r rhwydwaith strategol pan sefydlir.

- 4.3 Rhagwelir bydd 2013/14 yn gyfnod trosiannol heb lawer o newid ond hytrach sicrhau dealltwriaeth lawn o'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd a llunio'r strategaeth rhwydwaith i fod yn weithredol o Ebrill 2014 ymlaen.

#### **5.0 Casgliadau ac Argymhellion**

- 5.1 Mae'r newidiadau yng nghyfansoddiad TAITH yn angenrheidiol i ymateb i benderfyniadau'r Gweinidog ynglŷn â'r modd ariannu gwasanaethau bws i'r dyfodol.

5.2 Argymhellir felly fod Cabinet y Cyngor yn:-

- a) nodi'r adroddiad a'r newidiadau sy'n deillio o benderfyniadau'r Gweinidog mewn perthynas â threfniadau ariannu bysus.
- b) cymeradwyo'r newidiadau canlynol i gyfansoddiad TAITH sef:-
  - i) ymestyn ardal weithredol TAITH i gynnwys Gwynedd gyfan mewn perthynas â rhai materion penodol,
  - ii) cynnwys y cymal - ... "I weinyddu, comisiynu a gweithredu grantiau ariannu bws a strategaethau rhwydwaith bws i'r rhanbarth".

## **Barn y swyddogion statudol**

### **Y Prif Weithredwr:**

Mae'r rheidrwydd i gyflwyno'r adroddiad hwn yn engraifft arall o Lywodraeth Cymru yn gorfodi rhanbartholi trefniadau. Beth bynnag ein barn am hynny, a mae'n rhaid ystyried pob achos yn ei dro, yr hyn sydd gerbron yw'r unig ymateb y gall y cyngorau eu cyflwyno mewn ymateb i hynny.

### **Y Swyddog Monitro:**

Mae angen i'r Cabinet, nid yn unig gytuno i ddiwygio cyfansoddiad TAITH ond hefyd ddirprwyo iddo yr hawliau mewn perthynas â grantiau ariannu bws a strategaeth rhwydwaith bws. Mewn geiriau eraill bydd y Cabinet yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y swyddogaethau hynny i'r cyd-bwyllgor i'w gweithredu ar ran y Cyngor. Mae'r newidiadau yn anorfod er mwyn gwireddu gweledigaeth y Gweinidog ar y gyfundrefn ariannu newydd.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Diau fod y newidiadau yng nghyfansoddiad TAITH yn anochel yn dilyn penderfyniadau'r Gweinidog Llywodraeth Leol, ac am osgoi dyblygu gwaith i raddau. Er hynny, efallai bydd y Cabinet awydd gofyn i'r Aelod perthnasol a'r swyddogion cyswllt i ofalu fod ymestyn gweithredu TAITH ynglŷn â'r grantiau bws ar draws Gwynedd gyfan ddim am gwtogi'r arian (Grant Gwasanaethau Lleol Cludiant) byddai wedi dod i Wynedd (gan gynnwys Meirionnydd) pe bai TraCC a TAITH wedi parhau ar wahân. Bydd cryn her i'r Cyngor hwn i ddelio gyda'r gostyngiad grant (£182k) erbyn 2013/14 beth bynnag, a dylai'r Adran Rheoleiddio gychwyn ystyried opsiynau cyn gynted â phosib.

---

## **Atodiadau**

1. Cyfansoddiad TAITH